Datganiad Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Gynradd Llanddarog

Dyrennir y Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis.

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n blant mewn gofal. Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
2. cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau .

Yn 2017-18 rhoddwyd i Ysgol Gynradd Llanddarog ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion o £1,150. Yn Ysgol Gynradd Llanddarog mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn. Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- ddarparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf a'u bod yn gynaliadwy e.e. Lythrennau a Synau, CHATT ac ymyrraeth Numicon
- cyflwyno a defnyddio systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr, targedu ymyraethau a monitro effaith.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.